

Risgiau sy'n gysylltiedig ag ysmegu mewn gwasanaeth gofal

Cefndir

Yn dilyn cwest lle y bu farw unigolyn ar ôl i weithiwr gofal cymdeithasol ei gadael wedi iddo ei chynorthwyo i danio sigarét, rydym wedi ymgynghori ag eraill ac yn awr yn cyhoeddi'r arweiniad isod.

Cyd-destun cyfreithiol

Mae cartrefi gofal preswyl wedi'u heithrio o ddeddfwriaeth ddi-fwg.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, gellir sicrhau bod ystafelloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer ysmegu dan do neu ystafelloedd gwely i'w defnyddio gan breswylwyr sy'n dymuno ysmegu dan do ar gael. (Gweler erthygl ar carehome.co.uk yn y ddolen isod). Os oes ystafelloedd dynodedig wedi'u darparu, caiff cartrefi gofal eu cynghori i gyfyngu unrhyw gyswllt y gall anysmygwr ei wneud â mwg ail-law cymaint ag y bo'n ymarferol bosibl.

Saif gwaharddiad ar ysmegu ymysg staff mewn cartrefi gofal, ond gall ardal allanol gael ei dynodi ar gyfer staff ac ymwelwyr.

Cyngor

Mae'n bwysig bod y risgiau i iechyd a'r risgiau tân sy'n gysylltiedig ag ysmegu i'r rheini sy'n derbyn gofal a chymorth a'r rheini sy'n eu darparu yn cael eu hasesu a'u lliniaru.

Yn benodol, ni fyddwn fel arfer yn disgwyl i weithwyr gofal cymdeithasol gynorthwyo pobl i ysmegu oherwydd y risgiau i iechyd a thân posibl. Lle bo hyn yn digwydd, rhaid iddo fod am reswm teilwng ac yn rhan o gynllun y cytunwyd arno, a rhaid i'r rheini sy'n rheoli'r gwasanaeth wybod amdano. Rhaid iddo gael ei gynnwys yn y Cynllun Gofal ac asesiad risg, a lle bo'n bosibl dylid archwilio opsiynau eraill er mwyn dileu neu leihau'r risgiau, er enghraifft y defnydd o e-sigaréts. Dylid ceisio cyngor y gwasanaeth tân ar bob adeg.

Rhaid rhoi sylw i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ysmegu ym mholisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, yn ogystal â sicrhau bod yr hyn a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol ynghylch ysmegu a chynorthwyo eraill i wneud hynny'n cael eu gwneud yn eglur.

Cyfeiriadau/Adnoddau

- Gwefan diogelwch tân Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- [Erthygl ddefnyddiol am y pwnc ar carehome.co.uk.](#)